# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Rhagfyr 2021

Amser: 13.30 - 15.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12514

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Alun Davies AS<br>Peter Fox AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg<br>Grace Martins, Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru<br>Cath Wyatt, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg mewn perthynas â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn anfon llythyr at y Gweinidog ar ôl y sesiwn gyda chwestiynau ychwanegol yn ymwneud â'r Bil.

## 3 Offerynnau statudol negyddol arfaethedig nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.3B.

### 3.1 pNeg(6)002 - Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon y dylai'r weithdrefn negyddol fod yn gymwys.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 4.1 SL(6)087 - Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurhad o ran ei hymateb i'r adroddiad.

### 4.2 SL(6)091 - Gorchymyn Gweithdrefn Ddatblygu (Ymgyngoreion) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**4.3 SL(6)092 – Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) (Dirymu) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

**4.4 SL(6)093 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.5 SL(6)094 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.6 SL(6)095 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.7 SL(6)096 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

**4.8 SL(6)100 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2021**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.9 SL(6)097 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd diwygiedig a nodwyd ac a drafodwyd yn y cyfarfod.

### 4.10 SL(6)088 – Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.11 SL(6)089 – Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

### 5.1 SL(6)090 – Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Trafododd y Pwyllgor y Cod ac roedd yn fodlon arno.

## 6 Datganiadau Ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 6.1 WS-30C(6)004 - Rheoliadau Ystadegau'r DU (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2021

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 7 Fframweithiau cyffredin

### 7.1 Fframwaith cyffredin dros dro: Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## 8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 8.1 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Uwchgynhadledd Cyngor Prydain-Iwerddon yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog, a’i fod wedi’i anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

### 8.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Grŵp Rhyng-Weinidogol i drafod Etholiadau a Chofrestru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a’i fod wedi’i anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol.

## 9 Papurau i'w nodi

### 9.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Pŵer Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith, Senedd yr Alban: Ymchwiliad i ddefnyddio’r weithdrefn gwneud cadarnhaol yn ystod pandemig y coronafeirws.

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gynullydd Pwyllgor Pŵer Dirprwyedig a Diwygio'r Gyfraith Senedd yr Alban ac, yn breifat, cytunwyd i ymateb maes o law.

### 9.2 Gohebiaeth â’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd. Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd.

### 9.3 Gohebiaeth â’r Gweinidog Newid Hinsawdd a’r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Dadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ymwneud â darpariaethau ym Mil yr Amgylchedd y DU.

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Gweinidog Newid Hinsawdd a’r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod, ac o Eitem 1 y cyfarfod a gaiff ei gynnal ar 13 Rhagfyr 2021

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig

## 11 Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) – trafod y dystiolaeth

Bu’r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei sesiwn gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), a nododd y byddai'n ystyried ymateb y Gweinidog i'w lythyr gyda chwestiynau ychwanegol maes o law.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar – trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, a chytunodd arno, ac y byddai’r adroddiad yn cael ei osod erbyn 5pm.

## 13 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Adeiladau – trafod yr adroddiad drafft.

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Adeiladau, a chytunodd arno, yn amodol ar rai mân newidiadau. Nododd y Pwyllgor y byddai’r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

## 14 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

### 14.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) – trafod yr adroddiad drafft diwygiedig.

Ystyriodd y Pwyllgor fersiwn ddiwygiedig o'i adroddiad ar Fil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) Llywodraeth Cymru. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

### 14.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) a chytunodd arno. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

### 14.3 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

Nododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) a osodwyd ar 3 Rhagfyr 2021.

## 15 Cytundebau rhyngwladol a drafodwyd ar 29 Tachwedd 2021 – trafod yr adroddiad drafft

Bu'r Pwyllgor yn trafod ei adroddiad ar y cytundebau rhyngwladol a ystyriwyd yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2021, a chytunodd arno. Cytunodd y Pwyllgor i dynnu sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y Sefydliad Llafur Rhyngwladol: Confensiwn Trais ac Aflonyddu 2019 (Rhif 190), ac i rannu gohebiaeth gan y Prif Weinidog ar y DU / y Swistir: Confensiwn ar gydlynu nawdd cymdeithasol gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Hefyd, nododd y Pwyllgor y byddai copi o'i adroddiad yn cael ei roi i aelodau Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi.